OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2880

# Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

## RHAN 6

Gorfodi a Pheidio â chydymffurfio

**Adennill costau gorfodi**

**16.**—(1) Caiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad (“hysbysiad adennill costau gorfodi”) i werthwr y gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn arno yn ei gwneud yn ofynnol bod y gwerthwr hwnnw'n talu'r costau yr aed iddynt gan y gweinyddwr mewn perthynas â gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn hyd at amser ei osod (“costau gorfodi”).

(2) Mae costau gorfodi yn cynnwys, yn benodol—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigwr (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i hysbysiad adennill costau gorfodi bennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu a rhaid iddo gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) sut y gellir talu;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu;

(c) yr hawl i apelio; a

(ch) y canlyniadau am fethu â thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

(4) Rhaid i'r dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad adennill costau gorfodi i'r gwerthwr.

(5) Rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad adennill costau gorfodi.

(6) Ond mae paragraff (5) yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn y rheoliad hwn a rheoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(7) Os yw penderfyniad gweinyddwr o dan y rheoliad hwn yn destun apêl, yna i'r graddau y caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyfernir yr apêl.

(8) Rhaid i weinyddwr ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau a bennir mewn hysbysiad adennill costau gorfodi os bydd y gwerthwr y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo yn gofyn amdano.

(9) Nid yw gwerthwr yn atebol i dalu unrhyw gostau y mae'r gwerthwr hwnnw'n dangos yr aed iddynt yn ddiangen.

(10) Caiff gwerthwr apelio—

(a) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod gofyniad i dalu costau;

(b) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr o ran swm y costau hynny.